Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc) (Ymadael â’r UE) 2020** |
| **DYDDIAD** | **19 Hydref 2020** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd** |

**OS a osodwyd yn Senedd y DU, sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig**

**Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc) (Ymadael â’r UE) 2020**

Pwrpas y Rheoliadau yw cynnal bioddiogelwch a chefnogi masnach trwy sicrhau bod mesurau effeithiol ar gyfer diogelu iechyd planhigion yn parhau o fewn Prydain Fawr a rhwng Prydain Fawr a’r UE ar ddiwedd y Cyfnod Pontio ar 31 Rhagfyr 2020.

<u>Offerynnau Ewropeaidd Sy'n Uniongyrchol Gymwys a ddiwygir gan Reoliadau 2020</u>

- Rheoliad (EU) 2016/2031;
- Penderfyniad y Comisiwn 2002/757/EC;
- Penderfyniad y Comisiwn 2005/51/EC;
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2017/2313;
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2018/2018;
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/827;
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/829;
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/2148;
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/918; a
  Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/1002.

Mae Rheoliadau 2020 yn dirymu Deddfwriaeth yr UE a restrir yn yr Atodiad i'r hysbysiad hwn.

Deddfwriaeth ddomestig sylfaenol a ddiwygir gan Reoliadau 2020

Deddf Iechyd Planhigion 1967.

Is-ddeddfwriaeth ddomestig a ddiwygir gan Reoliadau 2020 (nad oes yr un ohonynt yn gymwys i Gymru)

- Rheoliadau Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Ffioedd) (Lloegr a'r Alban) 2015;
- Rheoliadau Iechyd Planhigion etc (Ffioedd) (Lloegr) 2018; a
- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organebau a Addaswyd yn Enetig) (Lloegr) 2019.

Is-deddfwriaeth ddomestig a ddirymir gan Reoliadau 2020

- Rheoliad Iechyd Planhigion (Diwygio) (Lloegr) (Ymadael â'r UE) 2019; a
- Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ymadael â'r UE) 2019.

**Unrhyw effaith y gall yr offeryn statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae Rheoliadau 2020 yn cynnwys darpariaethau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru heb lyffethair ac i Weinidogion Cymru roi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru.

Mae gan y swyddogaethau cydamserol a geir yn Rheoliadau 2020 y potensial i gynnwys y gofynion cydsynio yn Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac felly maent yn gyfyngiad posibl ar gymhwysedd Senedd Cymru yn y dyfodol. Fodd bynnag, rydym yn cynnal trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Gorchymyn a.109 o dan y Ddeddf i ddiwygio Atodlen 7B i negyddu'r cyfyngiad posibl ar gymhwysedd Senedd Cymru yn y dyfodol.

**Diben y gwelliannau**

Mae Rheoliadau 2020 yn gwneud diwygiadau o ran gallu gweithredu a diwygiadau canlyniadol eraill i ddeddfwriaeth ddomestig, i Reoliad (UE) 2016/2031 ar y mesurau amddiffyn rhag plâu planhigion a deddfwriaeth drydyddol gysylltiedig i sicrhau bod mesurau rheoli iechyd planhigion yn parhau i weithredu ym Mhrydain Fawr a rhwng Prydain Fawr a'r UE ar ddiwedd y Cyfnod Pontio. Maent yn creu 'marchnad sengl' sy'n cwmpasu Prydain Fawr a Thiriogaethau Dibynnol y Goron. Bydd yr UE yn dod yn drydedd wlad ac, o ganlyniad, bydd yn ddarostyngedig i reolaethau mewnforio trydydd gwledydd.

Mae'r diwygiadau a gyflwynwyd gan Reoliadau 2020 yn ddiwygiadau gweithredu technegol ac nid ydynt yn cynnwys unrhyw newidiadau polisi. Bydd y polisi cyfredol o fesurau rheoli iechyd planhigion sy’n seiliedig ar risg a gymhwysir o dan ddeddfwriaeth yr UE yn parhau. Bydd y drefn fodd bynnag yn canolbwyntio ar risgiau i Brydain Fawr yn hytrach na risgiau i’r UE er mwyn sicrhau bod cyfiawnhad technegol iddi yn unol â rhwymedigaethau Sefydliad Masnach y Byd a Rheoliadau’r UE. Bydd yr asesiad risg Prydeinig yn dilyn yr un dulliau a’r

egwyddorion a gydnabyddir yn rhyngwladol a ddefnyddiwyd gan yr UE i ddadansoddi Risg Plâu.

Pe na bai cyfraith yr UE yn cael ei diwygio, byddai'n cynnwys rheolau anweithredadwy a fyddai'n rhwystro Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru rhag gallu cyflawni deddfwriaeth ymarferol ar iechyd planhigion. Ni fyddai'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei diwygio yn cael yr effaith a ddymunir heb ei diwygio gan na fyddai'n adlewyrchu'r newid yn y sefyllfa ddeddfwriaethol yn dilyn Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, Protocol Gogledd Iwerddon a diwygiadau sydd wedi'u gwneud i ddeddfwriaeth yr UE ers iddynt gael eu gwneud.

Mae Rheoliadau 2020 a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi tarddiad a phwrpas y Rheoliadau, ar gael yma:
https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348213775/introduction

**Pam y cafodd cydsyniad ei roi**

Mae cydsyniad wedi'i roi i Lywodraeth y DU i wneud y cywiriadau hyn mewn cysylltiad ag ac ar ran Cymru er sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod. Mae'r diwygiadau wedi'u hystyried yn llawn, ac nid ydynt yn newid polisi. Bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau bod y llyfr statud yn parhau'n ymarferol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

**Atodiad**

Mae Rheoliadau 2020 yn dirymu deddfwriaeth ganlynol yr UE

**Rheoliadau'r UE**

**1.** Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1040/2002 sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer gweithredu'r darpariaethau sy'n ymwneud â dyrannu cyfraniad ariannol gan y Gymuned ar gyfer rheoli iechyd planhigion a diddymu Rheoliad (EC) Rhif 2051/97.

**2.** Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 1756/2004 sy'n pennu'r amodau manwl ar gyfer y dystiolaeth sy'n ofynnol a'r meini prawf ar gyfer math a lefel y gostyngiad mewn archwiliadau iechyd planhigion o blanhigion, cynnyrch planhigion neu wrthrychau eraill a restrir yn Rhan B o Atodiad V i Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC.

**Penderfyniadau'r UE**

**3.** Penderfyniad 91/261/EEC y Comisiwn sy'n cydnabod bod Awstralia yn rhydd *o Erwinia amylovora* (Burr.) Winsl. *et al*.

**4.** Penderfyniad 93/360/EEC y Comisiwn sy'n awdurdodi'r Aelod-wladwriaethau i ddarparu ar gyfer rhanddirymiadau o ddarpariaethau penodol o Gyfarwyddeb y Cyngor 77/93/EEC mewn perthynas â phren *Thuja* L., sy'n tarddu yng Nghanada.

**5.** Penderfyniad 93/365/EEC y Comisiwn sy'n awdurdodi'r Aelod-wladwriaethau i ddarparu ar gyfer rhanddirymiadau o ddarpariaethau penodol Cyfarwyddeb 77/93/EEC y Cyngor

mewn perthynas â phren conwydd sy'n cael ei drin gan wres, sy'n tarddu o Ganada, a sefydlu manylion y system ddangosyddion i'w cymhwyso i'r pren sy'n cael ei drin â gwres.

**6.** Penderfyniad 93/422/EEC y Comisiwn sy'n awdurdodi'r Aelod-wladwriaethau i ddarparu ar gyfer rhanddirymiadau o ddarpariaethau penodol Cyfarwyddeb 77/93/EEC y Cyngor mewn perthynas â phren conwydd a sychwyd mewn odyn, sy'n tarddu o Ganada, a sefydlu manylion y system ddangosyddion i'w cymhwyso i'r pren a sychir mewn odyn.

**7.** Penderfyniad 93/423/EEC y Comisiwn sy'n awdurdodi'r Aelod-wladwriaethau i ddarparu ar gyfer rhanddirymiadau o ddarpariaethau penodol Cyfarwyddeb 77/93/EEC y Cyngor mewn perthynas â phren conwydd a sychir mewn odyn, sy'n tarddu o Unol Daleithiau America, a sefydlu manylion y system ddangosyddion i'w cymhwyso i'r pren a sychir mewn odyn.

**8.** Penderfyniad 98/109/EC y Comisiwn sy'n awdurdodi Aelod-wladwriaethau dros dro i gymryd camau brys yn erbyn lledaenu *Thrips* p*almi* Karny o ran Gwlad Thai.

**9.** Penderfyniad y Comisiwn 2002/499/EC sy'n awdurdodi rhanddirymiadau o ddarpariaethau penodol o Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC mewn perthynas â phlanhigion naturiol neu gorblanhigion artiffisial *o Chamaecyparis* Spach, *Juniperus* L. a Pinus L., sy'n tarddu o Weriniaeth Corea.

**10.** Penderfyniad y Comisiwn 2002/887/EC sy'n awdurdodi rhanddirymiadau o ddarpariaethau penodol o Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC mewn perthynas â phlanhigion naturiol neu gorblanhigion artiffisial *o Chamaecyparis* Spach, *Juniperus* L. a *Pinus* L., sy’n tarddu yn Japan.

**11.** Penderfyniad y Comisiwn 2003/248/EC sy'n awdurdodi Aelod-wladwriaethau i ddarparu ar gyfer rhanddirymiadau dros dro o ddarpariaethau penodol o Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC mewn perthynas â phlanhigion mefus *(Fragaria* L. ), a fwriedir ar gyfer plannu, ac eithrio hadau, sy'n tarddu o'r Ariannin.

**12.** Penderfyniad y Comisiwn 2003/249/EC sy'n awdurdodi Aelod-wladwriaethau i ddarparu ar gyfer rhanddirymiadau dros dro o ddarpariaethau penodol o Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC mewn perthynas â phlanhigion mefus *(Fragaria* L. ), a fwriedir ar gyfer plannu, ac eithrio hadau, sy'n tarddu o Chile.

**13.** Penderfyniad y Comisiwn 2004/200/EC ar fesurau i atal cyflwyno a lledaenu yn Gymuned firws mosaig Pepino.

**14.** Penderfyniad y Comisiwn 2005/775/EC sy'n diwygio Penderfyniad 2002/499/EC sy'n awdurdodi rhanddirymiadau o ddarpariaethau penodol o Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC mewn perthynas â phlanhigion naturiol neu gorblanhigion artiffisial *o Chamaecyparis* Spach, *Juniperus* L. a *Pinus* L., sy'n tarddu o Weriniaeth Corea.

**15.** Penderfyniad y Comisiwn 2005/359/EC sy'n darparu ar gyfer rhanddirymiad o ddarpariaethau penodol o Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC o ran boncyffion derw *(Quercus* L.) â’u rhisgl, sy'n tarddu o Unol Daleithiau America.

**16.** Penderfyniad y Comisiwn 2006/750/EC yn diwygio Penderfyniad 2005/359/EC o ran porthladdoedd dadlwytho boncyffion derw *(Quercus* L.) â'u rhisgl, sy'n tarddu o Unol Daleithiau America.

**17.** Penderfyniad y Comisiwn 2007/212/EC sy'n diwygio Penderfyniad 2003/248/EC o ran ymestyn hyd rhanddirymiadau dros dro o ddarpariaethau penodol o Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC mewn perthynas â phlanhigion mefus *(Fragaria* L. ), a fwriedir ar gyfer plannu, ac eithrio hadau, sy'n tarddu o'r Ariannin.

**18.** Penderfyniad y Comisiwn 2007/221/EC sy'n diwygio Penderfyniad 2003/249/EC o ran ymestyn hyd rhanddirymiadau dros dro o ddarpariaethau penodol o Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC mewn perthynas â phlanhigion *mefus (Fragaria L. ), a fwriedir* ar gyfer plannu, ac eithrio hadau, sy'n tarddu o Chile.

**19.** Penderfyniad y Comisiwn 2007/432/EC sy'n ymestyn cyfnod dilysrwydd Penderfyniad 2002/499/EC mewn perthynas â phlanhigion naturiol neu gorblanhigion artiffisial *o Chamaecyparis* Spach, *Juniperus* L. a *Pinus* L., sy'n tarddu o Weriniaeth Corea.

**20.** Penderfyniad y Comisiwn 2010/646/EU sy'n ymestyn cyfnod dilysrwydd Penderfyniad 2002/499/EC mewn perthynas â phlanhigion naturiol neu gorblanhigion artiffisial *o Chamaecyparis* Spach, *Juniperus* L. a *Pinus* L., sy'n tarddu o Weriniaeth Corea.

**21.** Penderfyniad y Comisiwn 2011/74/EU sy'n diwygio Penderfyniad 2003/248/EC o ran ymestyn hyd rhanddirymiadau dros dro o ddarpariaethau penodol o Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC mewn perthynas â phlanhigion mefus *(Fragaria* L. ), a fwriedir ar gyfer plannu, ac eithrio hadau, sy'n tarddu o'r Ariannin.

**22.** Penderfyniad y Comisiwn 2010/723/EU sy'n ymestyn cyfnod dilysrwydd Penderfyniad 2005/359/EC sy'n darparu ar gyfer rhanddirymiad o ddarpariaethau penodol o Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC o ran boncyffion derw *(Quercus* L.) â'u rhisgl, sy'n tarddu o Unol Daleithiau America.

**23.** Penderfyniad y Comisiwn 2011/75/EU yn diwygio Penderfyniad 2003/249/EC o ran ymestyn hyd rhanddirymiadau dros dro o ddarpariaethau penodol o Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC mewn perthynas â phlanhigion mefus *(Fragaria* L. ), a fwriedir ar gyfer plannu, ac eithrio hadau, sy'n tarddu o Chile.

**24.** Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2011/787/EU yn rhoi awdurdod dros dro i Aelod-wladwriaethau gymryd camau brys yn erbyn lledaenu *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi et al. o ran yr Aifft.

**25.** Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2012/138/EU o ran mesurau brys i atal cyflwyno a lledaenu *Anoplophora chinensis* o fewn yr Undeb.

**26.** Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2012/270/EU o ran mesurau brys i atal cyflwyno a lledaenu *Epitrix cucumeris* (Harris), *Epitrix papa* sp.n., *Epitrix subcrinita* (Lec.) and *Epitrix tuberis* (Gentner) o fewn yr Undeb.

**27.** Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2012/535/EU ar fesurau brys i atal y lledaenu *Bursaphelenchus xylophilus* (Steiner et Buhrer) Nickle et al. (nematod pren pinwydd) o fewn yr Undeb.

**28.** Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2012/697/EU o ran mesurau i atal cyflwyno a lledaenu'r genws Pomacea (Perry) o fewn yr Undeb.

**29.** Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2013/780/EU sy'n darparu ar gyfer rhanddirymiad o Erthygl 13(1)(ii) o Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC mewn perthynas â phren di-risgl wedi'i lifio'n *o Quercus* L., *Platanus* L. ac *Acer saccharum* Marsh. sy'n tarddu o Unol Daleithiau America.

**30.** Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2014/356/EU sy'n diwygio Penderfyniad Gweithredu 2012/138/EU o ran amodau cyflwyno a symud planhigion penodedig o fewn yr Undeb er mwyn atal cyflwyno a lledaenu *Anoplophora chinensis* (Forster).

**31.** Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2014/679/EU yn diwygio Penderfyniad Gweithredu 2012/270/EU o ran ei gyfnod cymhwyso ac o ran symud i gyfleusterau pacio gloron tatws sy'n tarddu o ardaloedd sydd wedi'u marcio er mwyn atal lledaenu *Epitrix cucumeris* (Harris), *Epitrix similaris* (Gentner), *Epitrix subcrinita* (Lec.) ac *Epitrix tuberis* (Gentner) o fewn yr Undeb

**32.** Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2015/179 sy'n awdurdodi Aelod-wladwriaethau i ddarparu ar gyfer rhanddirymiad o ddarpariaethau penodol o Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC mewn perthynas â deunydd pacio pren o bren conwydd (Coniferales) ar ffurf blychau arfau sy'n tarddu o Unol Daleithiau America o dan reolaeth Adran Amddiffyn yr Unol Daleithiau.

**33.**Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2015/226 sy'n diwygio Penderfyniad Gweithredu 2012/535/EU o ran y diffiniad o bren sy'n dueddol o ddioddef a mesurau i'w cymryd mewn ardaloedd â'u ffiniau wedi'u marcio.

**34.** Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2015/893 o ran mesurau i atal cyflwyno a lledaenu *Anoplophora glabripennis* (Motschulksy) o fewn yr Undeb.

**35.** Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2015/1199 sy'n cydnabod Bosnia a Herzegovina yn wlad sy'n rhydd *o Clavibacter michiganensis* ssp. sepedonicus (Spieckermann a Kotthoff) Davis et al.

**36.** Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2016/1359 sy'n diwygio Penderfyniad Gweithredu 2012/270/EU o ran mesurau brys i atal cyflwyno a lledaenu *Epitrix cucumeris* (Harris), *Epitrix similaris* (Gentner), *Epitrix subcrinita* (Lec.) and *Epitrix tuberis* (Gentner) o fewn yr Undeb.

**37.** Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2017/427 sy'n diwygio Penderfyniad Gweithredu 2012/535/EU o ran mesurau i atal lledaenu *Bursaphelenchus xylophilus* (Steiner et Buhrer) Nickle et al. (nematod pren pinwydd) o fewn yr Undeb.

**38.** Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2017/2187 sy'n ymestyn cyfnod dilysrwydd Penderfyniad Gweithredu (UE) 2015/179 sy'n awdurdodi Aelod-wladwriaethau i ddarparu ar gyfer rhanddirymiad o ddarpariaethau penodol Cyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC mewn perthynas â deunydd pacio o bren conwydd (Coniferales) ar ffurf blychau arfau sy'n tarddu o Unol Daleithiau America o dan reolaeth Adran Amddiffyn yr Unol Daleithiau.

**39.** Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2018/5 sy'n diwygio Penderfyniad Gweithredu 2012/270/EU o ran symptomau *Epitrix cucumeris* (Harris), *Epitrix papa* sp. n., *Epitrix subcrinita* (Lec.) ac *Epitrix tuberis* (Gentner) a sefydlu ardaloedd â ffiniau perthnasol wedi'u marcio.

**40.** Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2018/618 sy'n diwygio Penderfyniad Gweithredu 2012/535/EU o ran mesurau i atal lledaenu *Bursaphelenchus xylophilus* (Steiner et Buhrer) Nickle et al. (nematode pren pinwydd) o fewn yr Undeb.

**41.** Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2016/2004 sy'n diwygio Penderfyniad Gweithredu 2013/780/EU sy'n darparu ar gyfer rhanddirymiad o Erthygl 13(1)(ii) o Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC mewn perthynas â phren di-risgl wedi'i lifio'n *o Quercus* L., *Platanus* L. ac *Acer saccharum* Marsh. sy'n tarddu o Unol Daleithiau America.

**42.** Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2018/638 sy'n sefydlu mesurau brys i atal cyflwyno a lledaenu yr *organeb* niweidiol *Spodoptera frugiperda* (Smith) o fewn yr Undeb.

**43.** Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2018/1503 sy'n sefydlu mesurau i atal cyflwyno a lledaenu *Aromia bungii* (Faldermann) o fewn yr Undeb.

**44.** Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/1598 sy'n diwygio Penderfyniad Gweithredu (UE) 2018/638 gan sefydlu mesurau brys i atal cyflwyno a lledaenu'r organeb niweidiol *Spodoptera frugiperda (Smith)* o fewn yr Undeb)

**45.** Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/1739 sy'n sefydlu mesurau brys i atal cyflwyno a lledaenu feirws Rosette Rhosod o fewn yr Undeb.

**46.** Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/2032 sy'n sefydlu mesurau i atal cyflwyno a lledaenu *Fusarium circinatum* Nirenberg & O'Donnell (*Gibberella circinata* gynt) o fewn yr Undeb a diddymu Penderfyniad 2007/433/EC.

**47.** Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2018/2019 sy'n sefydlu rhestr dros dro o blanhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill risg uchel, o fewn ystyr Erthygl 42 o Reoliad (UE) 2016/2031 a rhestr o blanhigion nad oes angen tystysgrifau ffytoiechydol arnynt i'w cyflwyno i'r Undeb, o fewn ystyr Erthygl 73 o'r Rheoliad hwnnw.

**48.** Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2020/885 o ran mesurau i atal cyflwyno a lledaenu *Pseudomonas syringae* pv. *actinidiae* Takikawa, Serizawa, Ichikawa, Tsuyumu & Goto o fewn yr Undeb.

**49.** Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2020/1191 sy'n sefydlu mesurau i atal cyflwyno a lledaenu feirws Tomatos ffrwythau rwgos brown (ToBRFV). o fewn yr Undeb.

**50.** Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/1164 sy'n darparu ar gyfer rhanddirymiad dros dro o ddarpariaethau penodol o Reoliad Gweithredu (UE) 2019/2072 mewn perthynas â mesurau i atal cyflwyno *a lledaenu'r pla Agrilus planipennis* Fairmaire o Ganada a'r Unol Daleithiau o fewn yr Undeb.

**51.** Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/1199 ar 13 Awst 2020 sy'n diwygio Atodiad VI Rheoliad Gweithredu (UE) 2019/2072 sy'n rhoi gwaharddiad dros dro ar gyflwyno ffrwythau penodol sy'n tarddu o'r Ariannin i'r Undeb er mwyn atal cyflwyno a lledaenu *Phyllosticta citricarpa* (McAlpine) Van der Aa o fewn yr Undeb.

Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2020/1201 ar 14 Awst 2020 o ran mesurau i atal cyflwyno a lledaenu *Xylella fastidiosa* (Wells et